Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Gynradd Llangynnwr**
**Heol Penymorfa**
**Llangynnwr**
**Caerfyrddin**
**SA31 2NN**

**Dyddiad yr arolygiad: 7 - 9 Mehefin 2011**

**gan**

**Dr David Gareth Evans**

**Arolygydd Cofnodol, o dan gontract i Estyn**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd a Rheolydd Llyfrfa Ei Mawrhydi 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod yr hawlfraint yn y deunydd fel y dywedwyd uchod a rhaid nodi teitl yr adroddiad.**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Gynradd Gymunedol Llangynnwr mewn ardal wledig yn agos i dref Caerfyrddin. Daw'r mwyafrif helaeth o ddisgyblion o ddalgylch mae'r ysgol yn ei ddisgrifio fel un sydd heb fod yn freintiedig nac yn ddifreintiedig. Mae gan yr ysgol ddisgyblion o'r ystod gallu lawn.

Ar hyn o bryd, mae 260 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar gofrestr yr ysgol ac fe'u derbynnir yn rhan-amser ar ddechrau'r tymor wedi eu trydydd pen-blwydd, ac yn llawn-amser y tymor canlynol, ar yr amod fod lle yn caniatáu. Mae gan yr ysgol ddwy ffrwd ieithyddol a thros y blynyddoedd gwelwyd cynnydd amlwg yn nifer y disgyblion sy'n derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Daw'r rhain o gartrefi Cymraeg a Saesneg eu hiaith, a'r mwyafrif o gartrefi di-Gymraeg. Ar y cyfan, mae cyfanswm y disgyblion wedi parhau'n weddol sefydlog dros y blynyddoedd.

Mae gan tua wyth y cant yr hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim, canran sydd yn is na'r cyfartaleddau sirol a chenedlaethol. Dynodwyd fod gan 55 o ddisgyblion, sef 20.5%, gan gynnwys dau a chanddynt ddatganiadau, anghenion addysgol arbennig (AAA), ac mae'r ffigwr hyn yn agos at y cyfartaleddau cymharol.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn ystod tymor yr haf 2005. Ers hynny mae tua hanner staff addysgu'r ysgol yn newydd i'w swyddi. Penodwyd y pennaeth i'w swydd yn 1993.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl yn 2010-2011 ar gyfer Ysgol Llangynnwr yw £3328 sy'n cymharu gydag uchafswm o £17,415 ac isafswm o £3,014 ar gyfer ysgolion cynradd yn sir Gaerfyrddin. Mae cyllideb fesul disgybl yr ysgol yn 88 allan o'r 114 ysgol gynradd yn y sir pan restrir hwy yn ôl maint, gan gychwyn â'r uchaf.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad cyfredol yr ysgol yn dda oherwydd:

- y ddarpariaeth dda a'r profiadau ymarferol cyfoethog a roddir i'r plant i'w hysgogi i ddysgu yn y Cyfnod Sylfaen;
- safonau a chyflawniad da gan ran fwyaf y disgyblion o bob oedran ar draws yr ysgol;
- ethos hapus, gofalgar a chefnogol gyda disgwyliadau uchel o ran ymddygiad disgyblion;
- y sylw effeithiol a rhoddir i les disgyblion ac i hanghenion dysgu ychwanegol rhan fwyaf y disgyblion;
- llwyddiant yr ysgol i ddatblygu'r Gymraeg iaith gyntaf ac i gyflwyno'r diwylliant Cymreig; ac
- yr addysgu da sy'n ysgogi'r disgyblion i gyfranogi yn eu dysgu ac i gael budd o gwricwlwm diddorol ac amrywiol.

### Rhagolygon gwella

Mae gan yr ysgol ragolygon gwella da oherwydd:

- bod y pennaeth, yr uwch dim rheoli a'r staff ymroddgar yn rhannu'r un weledigaeth;
- mae'r holl staff yn cydweithio'n effeithiol er mwyn gwella'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion;
- mae prosesau hunan-arfarnu yn drwyadl ac yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn; a
- bod yr ysgol wedi adnabod agweddau penodol i'w datblygu sydd eisoes wedi eu rhoi ar waith.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i'r ysgol:

A1 codi safonau Cymraeg ail iaith disgyblion;

A2 cynyddu'r ganran o ddisgyblion sy'n cyrraedd lefelau 3 a 5 yn y canlyniadau asesiadau;

A3 codi safonau disgyblion mwy abl a thalentog yr ysgol trwy ddarparu gwaith mwy heriol ac ymestynnol ar eu cyfer;

A4 datblygu ymhellach rôl y Corff Llywodraethol yn y broses o hunan-arfarnu a gosod blaenoriaethau; ac

A5 ymateb i faterion yn ymwneud â iechyd a diogelwch a nodwyd yn y cyfarfod adborth ar ddiwedd yr arolygiad.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

*Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.*

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Wrth gychwyn yn yr ysgol, mae'r plant yn amrywio o ran gallu. Er hynny, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cyflawni'r deilliannau a ddisgwylir am eu hoedran erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen.

At ei gilydd mae medrau Cymraeg iaith gyntaf disgyblion yn dda. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen a Blwyddyn 2 mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn deall ac yn ymateb yn gywir i amrywiaeth dda o gwestiynau a chyfarwyddiadau syml. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 mae'r rhan fwyaf yn siarad yn gywir. Mae medrau darllen disgyblion yn datblygu'n dda trwy'r ysgol a'r rhan fwyaf ohonynt yn darllen yn hyderus. Mae cynnydd medrau ysgrifennu disgyblion yn rhugl ac maent yn elwa o'r profiadau a gyflwynir am yr amgylchedd lleol, hanes, a llên gwerin yr ardal. Mae medrau Saesneg rhan fwyaf y disgyblion yn dda ac maent yn siarad yn hyderus ac yn darllen ystod o ddeunyddiau yn ystyrlon. Mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu'n estynedig mewn ystod o gyfryngau ar draws y cwricwlwm. Ond, digonol yw cynnydd y disgyblion ym medrau Cymraeg ail iaith.

Mae canlyniadau diwedd cyfnod allweddol un ar gyfer 2010 yn uwch na chyfartaledd yr awdurdod lleol, y teulu a Chymru yn y Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth, ond yn is na'r cyfartaleddau cenedlaethol a'r teulu yn Saesneg. Mae hyn yn gosod yr ysgol ymysg y chwarter uchaf o ysgolion tebyg o ran y nifer o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn y Gymraeg, ond yn y trydydd chwarter ar gyfer mathemateg a'r chwarter isaf ar gyfer Saesneg a gwyddoniaeth. Mae'r dangosydd pynciau craidd, sef y lefel ddisgwyliedig mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, wedi bod yn gyffredinol well na chyfartaleddau Cymru, yr awdurdod a'r  teulu o ysgolion tebyg ers 2007.

Mae'r canran sy'n cyrraedd lefel 3 yn y Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth yn uwch na'r cyfartaleddau yn 2010, ond yn is yn Saesneg. Mae'r perfformiad ar lefel 3, yn debyg i'r pynciau craidd eraill, wedi bod yn anwastad oddiar 2006 ac ni lwyddodd bechgyn i gyrraedd lefel 3 yn Saesneg oddiar 2007.

Mae'r ganran o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 sy'n cyflawni'r dangosydd pynciau craidd wedi gostwng dros y blynyddoedd diwethaf, ac eithrio yn 2010 pan roedd yn uwch na chyfartaleddau'r awdurdod, y teulu a Chymru. Yn 2010 roedd y canlyniadau yn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn uwch na'r cyfartaleddau cymharol, ond yn y Gymraeg roedd y canlyniadau yn is na'r cyfartaleddau hyn. Wrth gymharu canlyniadau'r ysgol ag ysgolion tebyg ers 2006 mae cyrhaeddiad disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 wedi bod bron yn anwastad ac mae'r ysgol wedi bod yn gyson ymlith y 50 y cant neu'r 25 y cant isaf o ysgolion ar gyfer y dangosydd pynciau craidd, Saesneg a mathemateg dros bedair blynedd. Yn 2010, mae canran y disgyblion a gyflawnodd ar lefel 5 yn Saesneg, y Gymraeg a mathemateg yn uwch na'r cyfartaleddau cymharol tra yng ngwyddoniaeth mae'r ganran yn is na'r teulu.

Effeithiwyd ar ganlyniadau yn gyffredinol gan y nifer o ddisgyblion ag AAA yn y grŵp Blwyddyn 6. Yn 2007 roedd oddeutu traean ag AAA yn Blwyddyn 6 a datganiad addysgol gan 50 y cant ohonynt. Yn y blynyddoedd canlynol roedd gan lawer o'r disgyblion anawsterau dysgu difrifol hefyd.  Mae disgyblion ag AAA yn gwneud cynnydd da. Mae'r canlyniadau eleni, sydd heb eu cadarnhau eto, yn dal i ddangos gwelliant amlwg.

Yng nghyfnod allweddol 1, roedd canlyniadau'r merched yn well na'r bechgyn ym mhob pwnc heblaw Cymraeg ac yng nghyfnod allweddol 2 roedd perfformiad y merched yn well na'r bechgyn mewn Gymraeg, Saesneg a mathemateg.

Mae'r disgyblion sydd â hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim yn gwneud cynnydd disgwyliedig yn unol â'u hoed a gallu. Serch hynny, nid yw'r disgyblion mwy abl a thalentog bob amser yn cyflawni i'w gallu llawn yn ôl tystiolaeth a welwyd o waith disgyblion, dadansoddiad o ddata'r ysgol ac arsylwadau gwersi.

**Lles:  Da**

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn arddangos ymagweddau da tuag at ddysgu. Gweithiant yn gynhyrchiol gydag eraill ac ymdrechant yn dda i gwblhau tasgau gorau fedrant.  Maent yn gyson yn dangos parch at ei gilydd  ac eraill o gwmpas yr ysgol ac o fewn eu dosbarthiadau.  Mae'r disgyblion yn hapus yn yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel. Mae eu gallu i gydweithio ac i ddysgu'n annibynnol yn datblygu'n hynod effeithiol.

Mae gan bron pob disgybl ymwybyddiaeth gadarn o'r angen i gadw'n heini ac i fyw bywyd iach. Cymerant sylw manwl o gynnwys eu pecyn bwyd ac mae anogaeth yr ysgol yn sicrhau eu bod yn deall pwysigrwydd bwyta'n iach.

Mae gan aelodau'r Cyngor Ysgol ran weithredol yn y broses o wneud penderfyniadau. Mae dealltwriaeth y disgyblion hŷn o weithgareddau mentergarwch yn dda iawn. Mae hyn, ynghyd â'u cyfraniad yn y gymdeithas ac i ddigwyddiadau cymunedol, yn sicrhau y cânt eu paratoi'n dda iawn ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu dysgu.

Mae presenoldeb y disgyblion yn uwch na chyfartaledd Cymru a'r awdurdod lleol ers tair blynedd ac yn cymharu'n ffafriol iawn ag ysgolion tebyg. Mae prydlondeb y disgyblion yn gyffredinol dda.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn cynllunio a darparu ystod gyfoethog o brofiadau dysgu diddorol sy'n bodloni anghenion disgyblion yn dda ac yn cynnwys gofynion y cwricwlwm yn llwyddiannus. Mae datblygu medrau llythrennedd, cyfathrebu, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r disgyblion yn cael lle amlwg o fewn y cynlluniau gwaith ar draws yr ysgol. Mae'r gweithgareddau dysgu'n cynnwys tasgau penodol sydd wedi eu cynllunio er mwyn cau'r gagendor rhwng perfformiad bechgyn a merched. Mae'r athrawon yn paratoi gweithgareddau gwahaniaethol ar gyfer y disgyblion o fewn y mwyafrif o'r gwersi a arsylwyd. Ar ei orau, mae hyn yn effeithiol, ond nid yw bob amser yn diwallu holl anghenion y disgyblion mwyaf galluog.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn greiddiol i holl weithgareddau'r ysgol ac yn un o'i chryfderau. Darperir tasgau diddorol i ddisgyblion ysgrifennu'n estynedig yn y ddwy iaith. Mae'r athrawon yn darparu cyfleoedd eang a diddorol er mwyn atgyfnerthu gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion o hanes, daearyddiaeth, cerddoriaeth a chelfyddyd Cymru.

Mae darpariaeth gadarn ar gyfer datblygiad dinasyddiaeth fyd-eang sydd wedi ei hymgorffori'n llawn i fywyd yr ysgol a'r cwricwlwm ac yng ngweithgareddau'r cyngor ysgol a chyngor eco.

**Addysgu: Da**

Mae'r addysgu ar draws yr ysgol yn dda ac mae gwybodaeth drylwyr gan yr athrawon am y meysydd dysgu a'r pynciau y maent yn eu haddysgu. Mae cynlluniau manwl a phwrpasol wedi eu darparu ac ar waith drwy'r ysgol.

Mae'r athrawon yn defnyddio ystod eang o strategaethau addysgu ac yn cyflwyno gwersi'n fywiog a llawn brwdfrydedd. Mae amcanion a meini prawf llwyddiant yn cael eu rhannu gyda'r disgyblion. Gwneir defnydd effeithiol a phwrpasol o adnoddau addysgu. Mae'r athrawon yn cwestiynu yn bwrpasol ac yn dreiddgar er mwyn symud y dysgu ymlaen. Yn gyffredinol, mae'r athrawon yn cyflwyno gwaith gwahaniaethol addas, ond nid yw'r ddarpariaeth bob amser yn ddigon heriol ar gyfer y disgyblion

mwyaf galluog. Mae’r cymorthyddion dosbarth yn hynod effeithiol yn eu cefnogaeth i’r disgyblion ar draws yr ysgol.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu da wedi eu hintegreiddio i’r gwersi ac yn datblygu’n rhan o ethos yr ysgol. Mae athrawon yn darparu adborth llafar clir a chefnogol. Caiff gwaith ysgrifenedig y disgyblion ei farcio yn rheolaidd a rhoddir sylwadau adeiladol arnynt. Mae gan yr holl ddisgyblion eu targedau personol i weithio tuag atynt. Caiff rhieni wybodaeth dda am dargedau unigol a chyflawniadau a datblygiad eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ddiogel a hapus ac mae’r ddarpariaeth ar gyfer y gofal bugeiliol yn gadarn. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer byw yn iach a lles ac maent yn rhan o gynllun Ysgolion Iach Sir Gâr. Mae lles emosiynol a chorfforol y disgyblion â lle blaenllaw ym mywyd yr ysgol. Mae darpariaeth effeithiol i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion ac mae’r disgyblion yn derbyn cyfleoedd rheolaidd i fyfyrio ac ystyried arferion crefyddau eraill. Caiff rheolau a gweithdrefnau eglur eu gweithredu'n gyson ar draws yr ysgol.

Mae gan y staff wybodaeth fanwl am amddifadedd cymdeithasol a phroblemau disgyblion unigol ac mae’r ysgol yn barod i wrando ac i helpu. Mae’r ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol wedi ei chynllunio'n effeithiol.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag AAA yn effeithiol. Caiff anghenion dysgu’r disgyblion eu hadnabod yn fuan gan yr athrawon ac mae cysylltiadau da gydag asiantaethau arbenigol er mwyn rhoi cefnogaeth a hybu datblygiad y disgyblion hyn. Mae cynlluniau addysgu unigol o ansawdd da. Cynhelir adolygiadau cynnydd yn rheolaidd, sy’n cynnwys cyfleoedd i’r disgyblion fesur eu cynnydd eu hunain mewn perthynas â’u targedau.

Mae gan yr ysgol bolisi a gweithdrefnau priodol ar gyfer diogelu plant. Ceir gweithdrefnau clir i ddelio â bwlio a gwahaniaethu ar sail hil neu anabledd.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae’r ysgol yn gymuned glos, gofalgar a chynhwysol iawn ei naws. Mae gan ddisgyblion hawliau cyfartal i’r cwricwlwm a chant gyfleoedd o fewn y ddarpariaeth i arddangos agweddau goddefgar. Mae pob disgybl yn ddiwahân yn cael ei dderbyn a’i gynnwys yn holl weithgareddau cwricwlaidd ac allgyrsiol yr ysgol. Sicrheir nad oes unrhyw blentyn ag anableddau yn dioddef mewn unrhyw ffordd. Mae'r ysgol yn cynnig amgylchedd diogel a chroesawgar i'r holl ddisgyblion.

Darperir cyfleoedd da i ddisgyblion werthfawrogi cefndiroedd amrywiol eraill. Mae’r ysgol yn ymroi’n weithgar i godi arian at achosion da yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Mae hyn yn cynyddu ymwybyddiaeth disgyblion o gydraddoldeb ac amrywiaeth.

Mae’r ysgol yn darparu amgylchedd dysgu effeithiol sy’n cyfoethogi profiadau disgyblion. Mae ganddi adnoddau a gofod digonol ar gyfer nifer y disgyblion ac mae’r mannau addysgu mewnol a’r gofod allanol yn cael eu cadw’n daclus iawn.

Mae’r holl ardaloedd addysgu yn hygyrch i bawb. Mae’r disgyblion a’r athrawon yn gwneud defnydd pwrpasol iawn o’r holl ofod ac o’r adnoddau ac mae gofodau addysgu’r adeilad a’r coridorau wedi eu haddurno’n bwrpasol a difyr.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae’r ysgol yn gweithredu fel cymuned drefnus sy’n darparu amgylchedd cynhaliol i hyrwyddo lles a chynnydd disgyblion. Mae rheolaeth y pennaeth o faterion dydd i ddydd yn effeithiol. Mae ganddo ymroddiad cryf tuag at yr ysgol a’r gymuned ac mae’n sicrhau darpariaeth gyfoethog o brofiadau i’r disgyblion.

Mae arweinwyr a rheolwyr yn cyfleu eu gweledigaeth ar gyfer yr ysgol yn effeithiol. Trwy eu gwaith caled a’u hymrwymiad, maent yn helpu creu a chynnal amgylchedd dysgu effeithiol gyda ffocws ar wella safonau.

Cydweithia’r staff yn agos â’i gilydd i greu ethos cadarnhaol. Mae swydd-ddisgrifiadau yn amlinellu rolau a chyfrifoldebau’r staff yn dda. Mae gan yr athrawon a staff ategol rolau clir sy’n cael eu cyflawni yn dda. Gwelir ymdeimlad cryf o waith tîm ar draws yr ysgol ac mae’r athrawon, y staff ategol a’r ysgrifenyddes yn cydweithio’n effeithiol.

Defnyddir arbenigedd staff yn llwyddiannus i sicrhau darpariaeth a chynhaliaeth dda i’r disgyblion. Mae’r ysgol yn rhoi sylw da i reoli perfformiad a chysylltir deilliannau’r broses yn dda â blaenoriaethau yng nghynllun datblygu’r ysgol. Mae blaenoriaethau cenedlaethol a lleol, fel datblygu’r Cyfnod Sylfaen a chynhwysiad, yn derbyn sylw da.

Mae gan y corff llywodraethol ymwybyddiaeth briodol o berfformiad yr ysgol. Cynigia’r llywodraethwyr gefnogaeth addas a chyflawnant eu dyletswyddau yn gydwybodol. Er eu bod yn ymwybodol o’r cryfderau a’r meysydd i’w datblygu, maent yn cydnabod bod angen iddynt ehangu eu rôl a chymryd rôl fwy blaenllaw ym mhroses hunanarfarnu’r ysgol ac wrth osod blaenoriaethau.

Cynhelir awdit iechyd a diogelwch yn gyson. Serch hynny, tynnwyd sylw'r llywodraethwyr at rai materion yn ymwneud ag iechyd a diogelwch sydd angen sylw ar frys.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ysgol brosesau hunanarfarnu trylwyr sydd wedi adnabod yn effeithiol yr agweddau o fywyd yr ysgol sydd angen eu datblygu. Mae’r adroddiad hunanarfarnu yn rhoi darlun clir o sefyllfa gyfredol yr ysgol, ond tuedda fod yn ddisgrifiadol ar adegau.

Gwneir defnydd effeithiol o ddata perfformiad, gwybodaeth olrhain, a thystiolaeth uniongyrchol i gynllunio ar gyfer gwella. Mae yna gyswllt clir rhwng darganfyddiadau’r broses hunanarfarnu a’r blaenoriaethau a nodir o fewn y cynllun datblygu ysgol.

Mae cyfleoedd penodol i'r staff ddylanwadu ar yr hunanarfarniad. Er y rhoddir peth ystyriaeth i farn llywodraethwyr, rhieni a disgyblion yn y broses, mae'r agwedd hon yn ei dyddiau cynnar o ddatblygu.

Darperir cyfleoedd eang ar gyfer datblygiad proffesiynol y staff cyfan. Mae cysylltiad agos rhwng yr hyfforddiant, cyfrifoldebau staff a blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi datblygu llawer ar yr elfen o rwydweithio mewnol, sydd wedi llwyddo i greu tîm effeithiol iawn. Ceir cysylltiadau da gyda'r clwstwr lleol o ysgolion, ac mae'r berthynas â theulu'r ysgol yn datblygu'n dda.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae partneriaethau effeithiol gyda rhieni a gofalwyr a'r gymuned lleol. Mae cysylltiadau da a threfniadau trosglwyddo pwrpasol gyda'r ddwy ysgol uwchradd gydag amryw o weithgareddau effeithiol wedi eu trefnu. Mae gwaith safoni a chymedroli asesiadau athrawon addas yn digwydd yn y pynciau craidd.

Ceir ymweliadau cyson â mannau lleol ac mae aelodau o'r gymuned yn ymweld i rannu profiadau gyda'r disgyblion yn rheolaidd. Mae'r disgyblion yn cymryd rhan mewn amrywiol ddigwyddiadau lleol fel eisteddfodau, sioeau, gwasanaethau a chyngherddau. Mae'r berthynas glos hon yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion yn effeithiol iawn.

Gweithia'r ysgol yn gynhyrchiol gyda'r gwasanaethau cynhaliol yr awdurdod lleol. Hefyd mae staff a disgyblion yn elwa o'r cysylltiadau cryf gyda cholegau lleol ac mae llawer o fyfyrwyr yn cael eu hyfforddi yn yr ysgol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Rheola'r ysgol ei hadnoddau'n effeithiol a chaiff gwariant ei fonitro'n rheolaidd ac yn addas. Mae ystod dda o adnoddau ar gyfer dysgu ac addysgu a gwneir defnydd helaeth ohonynt.

Mae tîm brwdfrydig o athrawon yn yr ysgol sy'n cydweithio'n agos gyda'r staff ategol sydd, yn eu tro, yn cyflawni eu rôl yn dda. Gwna athrawon ddefnydd effeithiol o'u hamser ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu sydd yn cael effaith gadarnhaol ar safonau. Mae rheolaeth o'r amser hwn yn dda.

Mae'r llywodraethwyr yn cadw golwg fanwl ar y gyllideb. Maent yn gwario yn unol â blaenoriaethau cynllun datblygu'r ysgol ac yn sicrhau erbyn hyn nad oes gormod o arian wrth gefn.

Mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian o ystyried cynnydd rhan fwyaf y disgyblion ynghyd â'r defnydd darbodus o'r cyllid.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Llenwodd 106 o rieni neu ofalwyr yr holiadur. Y mae bron pob un ohonynt yn mynegi safbwyntiau cadarnhaol am yr ysgol, ac yn datgan bod eu plentyn/plant yn hoffi'r ysgol, wedi ymgartrefu'n dda ac yn teimlo'n ddiogel yno. Dywed bron pob un ohonynt bod yr addysgu'n dda a'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. Mae bron pob un yn dweud bod yr ysgol yn paratoi eu plentyn/ plant ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf ac yn teimlo y gallant drafod materion sy'n peri pryder yn hawdd gyda'r ysgol. Dywed bron pob un hefyd bod y disgyblion yn yr ysgol yn ymddwyn yn dda a bod y staff yn ymdrin â phob plentyn yn deg a chyda pharch. Mae bron pob un yn teimlo eu bod yn derbyn gwybodaeth dda am gynnydd eu plentyn/plant.

### Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr

Ymatebodd 100 o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 i'r holiadur. Mae bron pob un ohonynt yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn credu bod athrawon a staff eraill yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. Maent yn credu eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol, yn gwybod â phwy i siarad os oes angen ac yn credu bod yr ysgol yn eu helpu i ddysgu sut i gadw'n iach. Mae braidd pob un hefyd yn teimlo bod yr ysgol yn delio'n dda gydag unrhyw achos o fwlio a bod yna ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron ar gael i wneud eu gwaith. Mae braidd pob un yn teimlo bod digon o gyfleoedd i wneud addysg gorfforol yn yr ysgol a bod y gwaith cartref yn eu helpu i wella'u gwaith. Mae'r rhan fwyaf yn credu bod disgyblion eraill yn ymddwyn yn dda yn ystod gwersi ac ar amseroedd eraill, ond mae rhai yn datgan bod plant eraill yn amharu ar eu gallu i wneud eu gwaith.

## Atodiad 2

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Dr David Gareth Evans | Arolygydd Cofnodol |
| Mrs Eleri Hurley | Arolygydd Tîm |
| Mr Gwilym Davies | Arolygydd Lleyg |
| Miss Emma Rofe | Arolygydd Cymheiriaid |
| Mr E Lyn Davies | Enwebai'r Ysgol |

**Copïau o’r adroddiad**

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i’r ysgol ddarparu copïau o’r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw’n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy’n gofyn am gopi o’r adroddiad. Os yw ar gael, mae’r adroddiad data i’w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â’r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae’r term ‘Derbyn’ (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy’n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw’r grŵp o fyfyrwyr sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |